# Sgiliau Hanfodol Cymru

## Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif (EAoNS)

# Lefel 2 – Tasg dan Reolaeth

### Pecyn i Ymgeiswyr

# Cymharu Gwyliau

Sampl 1

| |
|---|
| Enw'r Ymgeisydd: |
| Rhif yr Ymgeisydd: |
| Dyddiad cofrestru ar gyfer EAoNS |
| Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) *(os yw'n berthnasol)*: |
| Enw *neu* Rif y Ganolfan: |

**Cyfarwyddiadau**

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich enw, eich rhif ymgeisydd, eich ULN (os yn berthnasol) ac enw neu rif y ganolfan yn y blychau ar dop y dudalen hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud **pob** rhan o'r dasg.

Mae gennych chi **5 awr** i orffen y dasg dan reolaeth, ond mae'n bosib rhannu'r amser hwnnw dros nifer o sesiynau. Mae'n **rhaid** i chi gofnodi isod beth oedd dyddiad dechrau a dyddiad gorffen pob sesiwn:

| Dyddiad **dechrau**'r dasg dan reolaeth: | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad **gorffen** y dasg dan reolaeth (*dim mwy nag wyth wythnos yn ddiweddarach):* | | | | | | | |
| **Sesiwn 1** | **Sesiwn 2** | **Sesiwn 3** | **Sesiwn 4** | **Sesiwn 5** | **Sesiwn 6** | **Sesiwn 7** | **Sesiwn 8** |
| | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* |
| *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* |
| **Cyfanswm** yr amser a dreuliwyd yn gwneud y dasg: | | | | | | | |

Os oes angen mwy nag wyth sesiwn arnoch chi, rhowch ddyddiad/hyd bob sesiwn arall ar dudalen ar wahân.

Cynhyrchwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:
Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys senario, cyfarwyddiadau a ffynonellau gwybodaeth.**

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen drwy'r senario, y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth sydd yn y ffynonellau yn ofalus cyn dechrau.
- Bydd rhywun yn eich goruchwylio gydol yr amser rydych chi'n gweithio ar y dasg, ond byddwch yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'r offer sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, o bosib) yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae'n rhaid i bob darn o waith rydych chi'n ei roi i mewn fod yn waith rydych **chi eich hun a neb arall** wedi'i wneud. Does neb yn cael eich helpu gyda'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r dasg dan reolaeth hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eich gwaith i gyd i mewn ar ddiwedd **pob** sesiwn. Chewch chi ddim mynd ag unrhyw rai o ddeunyddiau'r dasg i ffwrdd gyda chi, a chewch chi ddim gweld y deunyddiau rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn **llofnodi'r datganiad** sydd yng nghefn y pecyn hwn ar ddiwedd eich sesiwn olaf yn gweithio ar y dasg.

## Cyfarwyddiadau'r Dasg: Cymharu Gwyliau

## Beth mae angen i chi ddod o hyd iddo

**Senario**

Mae ffrind i chi'n bwriadu mynd ar wyliau, naill ai i Rufain (Yr Eidal) neu i Gairo (Yr Aifft) mis Chwefror nesaf.

Nod y dasg ydi helpu eich ffrind i wneud y canlynol:

- cymharu cost, tymereddau ac amseroedd hedfan ar gyfer Cairo a Rhufain
- cyfrifo faint o arian cyfred lleol fydd eich ffrind yn ei gael fel arian gwario
- penderfynu pa ddinas i ymweld â hi.

Defnyddiwch y ffynonellau a ddarparwyd.

## Beth mae angen i chi ei wneud

**Rhan 1**

Gwneud cynllun manwl i ddangos sut rydych chi am wneud y dasg.

Mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- disgrifio'r wybodaeth y byddwch yn ei defnyddio
- esbonio pa gyfrifiadau y byddwch yn eu gwneud a'r rhesymau dros eich dewis
- disgrifio sut byddwch yn cyflwyno eich canfyddiadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 1: 5 marc)

**Rhan 2**

Mae gan eich ffrind daleb sy'n cynnig gostyngiad o 7% i'w defnyddio ar gyfer tocyn awyren a gwesty yng Nghairo.

- cyfrifwch faint mae'n costio i gyd gyda'i gilydd i hedfan i Gairo ac aros mewn gwesty yno am 7 noson, gyda'r gostyngiad
- canfod faint mae'n costio i gyd gyda'i gilydd i hedfan i Rufain ac aros mewn gwesty yno am 7 noson.

Dewis math addas o gar llog ac yswiriant ar gyfer eich ffrind.

- cyfrifwch faint mae'n costio i gyd gyda'i gilydd i logi car a chael yswiriant am 3 diwrnod
- cyflwynwch eich canfyddiadau o ran cost y tocyn awyren a'r gwesty, llogi car ac yswiriant, gan ddefnyddio dull cyflwyno priodol (tabl, siart cylch neu siart bar cymharol/cydrannau, diagram neu graff llinell).

- cyfrifwch amrediad a chyfartaledd y tymereddau uchaf yn Rhufain ac yng Nghairo
- cyfrifwch faint o amser y mae'n ei gymryd i hedfan i Rufain ac i hedfan i Gairo.

Mae eich ffrind am newid rhwng £200 a £250 ar gyfer arian gwario

- Troswch y mathau canlynol o arian cyfred:
  - trosi punnoedd y DU i Ewros ar gyfer Rhufain
  - trosi punnoedd y DU i bunnoedd Yr Aifft ar gyfer Cairo
- lluniwch dabl, siart troi neu siart bar cymharol/cydrannau, diagram neu graff llinell addas y gall eich ffrind ei ddefnyddio i drosi symiau gwahanol o bunnoedd y DU i Ewros a phunnoedd Yr Aifft. Defnyddiwch ddull cyflwyno gwahanol i'r un y gwnaethoch chi ei ddefnyddio o'r blaen.

Mae’n rhaid i chi wneud y canlynol:

- gwneud o leiaf un cyfrifiad heb gyfrifiannell
- dangos yr holl gyfrifiadau rydych chi’n eu gwneud. Os ydych chi’n defnyddio cyfrifiannell, gwnewch nodyn o beth rydych yn ei roi i mewn i’r gyfrifiannell. Os ydych chi’n defnyddio taenlen, gwnewch nodyn o'r ffigurau a’r fformiwlâu rydych chi’n eu defnyddio.
- rhowch ateb sy'n cyfateb i’r lefel cywirdeb a ddisgwylir ar y lefel hon.

Cofiwch wirio eich cyfrifiadau.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 2: 22 marc)

**Rhan 3**

Rhoi sylwadau ar eich canfyddiadau:

- esboniwch sut mae eich canlyniadau yn cyflawni diben y dasg
- cymharu cost, tymereddau ac amseroedd hedfan ar gyfer Cairo a Rhufain
- argymell pa ddinas y dylai eich ffrind ymweld â hi.

(Cyfanswm ar gyfer Rhan 3: 3 marc)

**Adnoddau y dylech chi eu defnyddio:**

**Ffynhonnell 1**

- Tablau - Costau hedfan a gwestai

**Ffynhonnell 2**

- Tablau - Costau llogi ceir ac yswiriant

**Ffynhonnell 3**

- Fformiwla i gyfrifo cyfanswm y gost o logi car

**Ffynhonnell 4**

- Siartiau bar - Tymereddau yn Rhufain ac yng Nghairo

**Ffynhonnell 5**

- Tabl - Gwahaniaeth amser a chyfraddau cyfnewid

**Ffynhonnell 1 Tablau – Costau hedfan a gwestai**

Dyddiadau: 4 Chwefror i 11 Chwefror

**Rhufain**

| | | Cost fesul person ar gyfer hedfan a gwesty (£) | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwesty** | **Statws seren** | **4 noson** | **7 noson** | **10 noson** |
| Sunshine | 3 | 173.50 | 203.00 | 243.00 |
| Arcade | 3 | 182.50 | 222.50 | 255.50 |
| Holiday Hotel | 4 | 199.00 | 250.00 | 300.50 |
| Rhyme Hotel | 3 | 279.00 | 329.50 | 369.00 |
| **Hediad**<br>Gadael Llundain 10:30am Cyrraedd Rhufain 2:10pm<br>Mae'r holl amseroedd yn amseroedd lleol | | | | |

**Cairo**

| | | Cost fesul person ar gyfer hedfan a gwesty (£) | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwesty** | **Statws seren** | **4 noson** | **7 noson** | **10 noson** |
| Elizabeth | 3 | 351.00 | 464.50 | 577.00 |
| Grand Inn | 4 | 367.50 | 493.00 | 618.00 |
| Holiday Hotel | 5 | 384.00 | 523.00 | 661.50 |
| Pyramids | 5 | 446.00 | 632.00 | 817.50 |
| **Hediad**<br>Gadael Llundain 17:00 Cyrraedd Cairo 23:50<br>Mae'r holl amseroedd yn amseroedd lleol | | | | |

**Ffynhonnell 2 Tabl - Costau llogi ceir ac yswiriant**

| **Math o gar** | **Cost bob diwrnod (£)** |
|---|---|
| Car bach cynnil ar betrol | 27.90 |
| Car teulu cynnil ar betrol | 39.50 |
| Car teulu esmwyth | 49.50 |
| Car moethus | 108.50 |
| **Yswiriant** | |
| Safonol | 5.80 |
| Estynedig | 13.90 |


**Ffynhonnell 3 Fformiwla i gyfrifo cyfanswm y gost o logi car**


$$T = 25 + d(c + i)$$

lle mai

T yw’r gost i gyd gyda’i gilydd mewn £
d yw nifer y diwrnodau
c yw cost llogi'r car bob dydd mewn £
i yw cost yr yswiriant bob dydd mewn £

**Ffynhonnell 4 Siartiau bar - Tymereddau yn Rhufain ac yng Nghairo**



**Ffynhonnell 5 Tabl – Gwahaniaeth amser a chyfraddau cyfnewid**

| Gwlad | Dinas | Arian cyfred | Cyfradd gyfnewid fesul £ | Gwahaniaeth amser o gymharu â'r DU ym mis Chwefror |
|---|---|---|---|---|
| Denmarc | Copenhagen | Krone | 8.84 | + 1 awr |
| Yr Eidal | Rhufain | Ewro | 1.11 | + 1 awr |
| Twrci | Istanbul | Lira | 3.92 | + 2 awr |
| Yr Aifft | Cairo | Punt Yr Aifft | 11.76 | + 2 awr |
| UDA | Efrog Newydd | Doler | 1.32 | - 5 awr |
| Rwsia | Moscow | Ruble | 85.72 | + 4 awr |

## Datganiadau

Mae’n **rhaid** llenwi datganiad yr ymgeisydd a datganiad yr aseswr.

Enw’r Ymgeisydd: ______________________________

### Datganiad yr ymgeisydd:

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yn gyfan gwbl yw hwn a fy mod wedi'i wneud yn ystod yr amseroedd sydd wedi'u nodi ar glawr blaen y llyfryn hwn.

Llofnod yr ymgeisydd Dyddiad ________

At ddefnydd staff y ganolfan a [corff dyfarnu] yn unig

### Datganiad yr aseswr:

Rwyf yn cadarnhau bod yr ymgeisydd hwn wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer y dasg dan reolaeth. Cynhaliwyd y dasg dan reolaeth yn unol â'r amodau a nodwyd a’i chwblhau o fewn y cyfnod gweithio a'r gofynion o ran amser gweithio.

Llofnod yr aseswr Dyddiad _________

### Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA):

*(os samplwyd)*

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn fewnol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr IQA Dyddiad _________

### Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA):

*(os samplwyd)*

Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn allanol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.

Llofnod yr EQA Dyddiad _________